BT Group

In partnership with AbilityNet

# Geiriadur digidol – deall jargon technegol

**Mae'r byd digidol yn cyflwyno iaith newydd sbon. O botiau i chwilotwyr, cwcis i faleiswedd, byddwch yn dod ar draws llawer o eiriau ac ymadroddion a allai fod yn anghyfarwydd iawn i chi.**

**Felly, beth maen nhw i gyd yn ei olygu? Gyda'r chwalwr jargon hwn, byddwn yn eich helpu i ddeall y termau technegol mwyaf cyffredin. Dros amser, byddwch yn magu'r hyder a'r wybodaeth i wneud y defnydd gorau o'ch amser ar-lein: ac ymhen dim, byddwch yn siarad am dechnoleg yn rhugl.**

**Mae gan unrhyw air mewn diffiniad sydd mewn testun trwm ei ddiffiniad ei hun yn y rhestr.**

### 4G

4G yw pedwaredd genhedlaeth technoleg ffonau symudol i'w gwneud yn haws cael mynediad i'r **rhyngrwyd** ar eich ffôn symudol, llechen neu liniadur.

### 5G

Pumed genhedlaeth technoleg gellog. Dyluniwyd hyn i gynyddu cyflymder eich rhyngrwyd ar eich ffôn symudol pan na fydd gennych wasanaeth wi-fi.

### AI

Mae deallusrwydd artiffisial (DA) yn defnyddio cyfrifiaduron a pheiriannau i ddynwared galluoedd datrys problemau a gwneud penderfyniadau'r meddwl dynol.

### Adnewyddu / ail-lwytho

Gall helpu'r cyfrifiadur gysylltu â'r wefan os na fydd yn llwytho'n gywir.

### All-lein

Gweithio ar ddyfais heb gysylltiad **rhyngrwyd**.

### Allwedd ddigidol / ddiogel

Lefel ychwanegol o ddiogelwch, a ddefnyddir yn aml gyda bancio ar-lein. Bydd yn helpu i'ch diogelu rhag twyll.

### Amgryptio

Data wedi'i amgodio sy'n fwy diogel. Gall helpu i atal eich gwybodaeth breifat rhag cael ei dwyn.

### Android

**System weithredu** ar gyfer ffonau symudol a llechi.

### Ap

Mae Ap yn dalfyriad o 'application'. Mae'r rhain yn **rhaglenni** y gallwch eu **lawrlwytho** ar **ffôn clyfar** neu **lechen** i'ch helpu i wneud tasgau, neu ar gyfer adloniant.

### Ar-lein

Gweithio ar ddyfais pan fyddwch wedi cysylltu i'r **rhyngrwyd**.

### Awtolanw

Mae Awtolanw yn offer llenwi ffurflenni, adfer ffurflenni, pytiau testun ac awtomeiddio mewn un lle. Mae'n eich galluogi i ychwanegu data sydd eisoes wedi'i gofnodi ar-lein yn awtomatig.

### Band eang

Defnyddir hyn fel arfer i ddisgrifio cysylltiad cyflymder uchel i'r **rhyngrwyd**.

### Basged siopa

Yn union fel basged go iawn, rydych yn ychwanegu'r eitemau yr ydych am eu prynu ar-lein i fasged siopa.

### Bin ailgylchu

Dyma lle mae dogfennau'n mynd pan fyddwch yn eu dileu ar eich cyfrifiadur. Gellir eu hadfer os byddwch yn newid eich meddwl.

### Byg meddalwedd

Camgymeriad neu nam ym **meddalwedd** cyfrifiadur sy'n golygu nad yw'n gweithio fel y dylai.

BT Group

In partnership with AbilityNet

## Geiriadur digidol – deall jargon technegol parhad

### Caledwedd

Rhannau ffisegol cyfrifiadur, er enghraifft bysellfwrdd neu fonitor.

### Cod pas

Y dull a ddefnyddir i gael mynediad i'ch dyfais neu gyfrif ar-lein. Efallai y bydd cyfres o rifau, patrwm clo sgrin, ôl bysedd neu adnabod wyneb i roi mynediad i'ch dyfais neu i gyfrif ar-lein.

### Cod QR

Cod Ymateb Cyflym (Quick Response Code). Yn debyg mewn ymddangosiad i god bar, mae'n storio gwybodaeth lawn y wefan. Gellir ei sganio gyda chamera ffôn clyfar i agor gwefan. Mae'n edrych fel hyn:

### Cof

Pan fydd y ddyfais yn storio ei holl wybodaeth. Fel eich cof eich hun, mae'n cofio pethau.

### Cwci

Ffeiliau bach sy'n cael eu gosod ar eich cyfrifiadur gan wefannau y byddwch yn ymweld â nhw. Maent yn cofio gwybodaeth am eich ymweliad, er enghraifft eich dewis iaith.

### Cwmwl

Mae hyn yn eich galluogi i gadw a chael mynediad i'ch ffeiliau drwy'r **rhyngrwyd** ar unrhyw ddyfais sydd gerllaw.

### Cyfrifiadur bwrdd gwaith

Cyfrifiadur nad yw'n gludadwy.

### Cyfrinair

Yn eich galluogi i gael mynediad i gyfrifon ar-lein. Ar gyfer rhai gwefannau/cyfrifon bydd angen cyfrineiriau o hyd penodol ac sy'n cynnwys nodau penodol bysellfwrdd – er enghraifft priflythyren, rhif a nod, e.e., Gwefan.01".

### Data / gwybodaeth bersonol

Gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chi, er enghraifft manylion cerdyn credyd, manylion banc, cyfeiriadau neu rif ffôn.

### Data symudol

Mae hyn yn galluogi eich dyfais symudol i gael mynediad i'r **rhyngrwyd** heb orfod cysylltu â wi-fi. Byddwch yn talu am hyn fel rhan o'ch contract ffôn symudol. Pan fyddwch dramor, efallai y codir mwy arnoch i ddefnyddio hyn, felly gwnewch yn siŵr eich bod wedi'i droi i ffwrdd pan fyddwch i ffwrdd, oni bai eich bod yn barod i dalu mwy.

### Dogfen

Ffeil (e.e., llythyr) sydd wedi'i chreu a'i chadw ar gyfrifiadur neu liniadur: tebyg i ddogfen all-lein.

### Dyfais

Yr offer rydych yn ei ddefnyddio i gael mynediad i'r **rhyngrwyd** a gweithio'n ddigidol h.y., cyfrifiadur, ffôn symudol, gliniadur.

### Dyfais glyfar

Offer ffisegol a ddefnyddir i gael mynediad i'r rhyngrwyd, er enghraifft **ffôn clyfar**, **gliniadur** neu **lechen**.

### E-bost

Ffordd o anfon negeseuon a ffeiliau yn electronig (am ddim!).

### Eicon

Delwedd fach y gallwch glicio arni i agor ap, ffeil neu ddarn o **feddalwedd**.

### Enw defnyddiwr

Enw unigryw sy'n adnabod rhywun ar-lein.

### Ffenestr naid

Ffenestr ychwanegol neu dab sy'n ymddangos, fel arfer pan fyddwch ar wefan.

### Ffolder Sothach / Ffolder

Ffolder ar gyfer negeseuon e-bost diangen yn bennaf, a allai gynnwys sgamiau.

### Ffôn clyfar

Dyfais symudol y gellir ei defnyddio i gael mynediad i'r **rhyngrwyd**. Mae iPhone yn un enghraifft.

### Ffont

Dyma sut mae testun yn edrych. Er enghraifft: **Dyma rywfaint o destun mewn un ffont**. Dyma rywfaint o destun mewn ffont arall.

### Ffrydio

Gwrando ar gerddoriaeth neu wylio fideos ar-lein pan fyddwch wedi cysylltu â'r **rhyngrwyd.**

### Firws

Math o **faleiswedd** sy'n gallu lledaenu i gyfrifiaduron eraill. Fel salwch go iawn, gallai atal eich cyfrifiadur rhag gweithio'n gywir.

### Gliniadur

Cyfrifiadur cludadwy gyda sgrin a bysellfwrdd wedi'u hymgorffori. Gellir ei blygu yn ei hanner er mwyn ei wneud yn haws ei gario.

### Gosod

Rhoi rhywbeth fel **meddalwedd** yn eich dyfais e.e. lawrlwytho ap.

## Geiriadur digidol – deall jargon technegol parhad

### Gosodiadau preifatrwydd

Mae hyn yn galluogi i chi reoli pwy sy'n gweld neu'n rhannu eich gwybodaeth. Mae'r rhain yn aml yn ymddangos pan fyddwch yn mynd i wefan am y tro cyntaf.

### Gwedan

Tudalen ar-lein sy'n cynnwys gwybodeath (newyddion, tywydd, canlyniadau chwaraeon, lleoliadau gwylia).

### Gwe-rwydo (phishing)

Math o **sgâm** a allai geisio eich twyllo i rannu **gwybodaeth bersonol** neu drosglwyddo arian.

### Gwrthfirws

**Meddalwedd** diogelwch sy'n helpu i ddiogelu eich cyfrifiadur rhag **firysau** ar-lein.

### Haciwr

Rhywun sy'n sicrhau mynediad i gyfrifiaduron neu gyfrifon ar-lein heb ganiatâd y perchennog.

### Hanes

Cofnod o'r holl wefannau rydych wedi ymweld â nhw ar y **rhyngrwyd**.

### HTTP

Protocol Trosi Hypertestun. Mae'r llythrennau hyn yn ffurfio rhan o **URL** neu gyfeiriad gwefan h.y., https://www.google.co.uk

### Hyperddolen / Dolen

Dolen i gyfeiriad gwefan y gallwch glicio arno, sy'n mynd â chi'n uniongyrchol i dudalen gwe/cynnwys arall ar-lein. Yn aml wedi'i danlinellu ac mewn lliw gwahanol (er enghraifft glas).

### iOS

System weithredu a ddyluniwyd gan Apple ar gyfer eu ffonau symudol a'u llechi.

### Lawrlwytho

Cadw ffeil i'ch dyfais o wefan.

### Llais-rwydo (vishing)

**Sgam** sy'n digwydd dros y ffôn.

### Llechen

Cyfrifiadur cludadwy heb fysellfwrdd ffisegol. Yn hytrach, mae'r bysellfwrdd yn ymddangos ar y sgrin.

### Llygoden

Dyfais fach, sy'n symud y cyrchwr i wahanol leoedd ar y sgrin.

### Llwytho

Postio rhywbeth ar y rhyngrwyd, er enghraifft, postio ffotograff ar Facebook.

### Maleiswedd

Mae hyn yn disgrifio pob math o **feddalwedd** a gynlluniwyd i ymosod neu amharu ar ddyfais e.e. **firysau** a **meddalwedd wystlo**.

### Meddalwedd

Rhywbeth y gallwch ei **lawrlwytho** a'i osod ar eich cyfrifiadur sy'n cyflawni tasg neu swyddogaeth benodol.

### Meddalwedd wystlo

**Maleiswedd** sy'n eich rhwystro rhag cael mynediad i ffeiliau nes y byddwch yn talu arian i'r haciwr.

### Mewngofnodi

I fewngofnodi i wefan neu ddyfais gyda'ch manylion eich hun.

### Monitor

Y rhan o'r cyfrifiadur rydych yn edrych arni. Yn debyg i deledu, mae'n dangos y wybodaeth ar y sgrin.

### Mur gwarchod

Meddalwedd sy'n darparu diogelwch rhag **ymosodiadau seiber**. Gellir lawrlwytho fersiwn sylfaenol am ddim.

### Nod tudalen

Yn eich galluogi i gadw gwefan fel y gallwch ddychwelyd ati'n ddiweddarach, fel nod tudalen mewn llyfr.

### Pad cyffwrdd / pad tracio

Mae'n cyflawni swyddogaeth debyg i **lygoden** ac mae wedi'i ymgorffori mewn gliniadur. Mae'n galluogi i chi symud y cyrchwr o amgylch y sgrin.

### PC

Cyfrifiadur Personol

### Peiriannu cymdeithasol

Pan fydd sgamiwr yn ceisio eich twyllo drwy eich manipiwleiddio, ceisio sicrhau eich ymddiriedaeth drwy chwarae ar eich emosiynau a'ch caredigrwydd.

### Peiriant chwilio

Gwefan a ddefnyddir i ddod o hyd i wybodaeth ar y **rhyngrwyd**. Mae Google yn un enghraifft.

### Podlediad

Mae podlediad yn fersiwn sain yn unig o raglen, fel sioe radio.

### Porwr

Mae hyn yn caniatáu i chi edrych ar wefannau ar y **rhyngrwyd**. Mae enghreifftiau yn cynnwys Google Chrome neu Microsoft Edge.

### Prosesydd

Darn o galedwedd sy'n galluogi eich cyfrifiadur i ryngweithio gyda'i gymwysiadau a rhaglenni sydd wedi'u gosod – meddyliwch amdano fel ymennydd y cyfrifiadur.

### Rheolaeth rhieni

Gosodiadau sy'n galluogi rhieni i ddewis pa gynnwys y gall neu na all eu plant gael mynediad ato neu ei weld ar-lein.

BT Group

In partnership with AbilityNet

## Geiriadur digidol – deall jargon technegol parhad

### Rhwydweithiau cymdeithasol

Mae Facebook, Twitter ac Instagram yn enghreifftiau o rwydweithiau cymdeithasol: gwefannau sy'n eich galluogi i siarad â phobl a rhannu ffotograffau neu fideos.

### Rhyngrwyd

Un rhwydwaith enfawr a ddefnyddir i storio a symud gwybodaeth. Fel llyfrgell fawr.

### Sbam

Negeseuon **e-bost** neu negeseuon diangen o ffynonellau nad ydych yn ymddiried ynddynt.

### Sgam

Pan fydd rhywun yn ceisio eich twyllo i roi eich **data personol**, er enghraifft eich manylion banc.

### Sgamiwr

Unigolyn sy'n cyflawni **sgâm**.

### Sgrôl / Sgrolio

Y weithred o symud testun neu graffigwaith ar y sgrin. Gallwch symud eich llygoden neu fys (yn ddibynnol ar eich dyfais) i fyny, i lawr neu ar draws i edrych ar wahanol rannau ohono.

### SMS-rwydo (smishing)

Pan fydd **sgamwyr** yn anfon neges destun (neu SMS) gan honni eu bod yn rhywun nad ydyn nhw.

### Symbol clo clap

I'w gweld fel arfer yn y bar cyfeiriadau sy'n dangos gwefan, mae'n golygu bod gennych gysylltiad diogel.

### System Weithredu

Mae'n rheoli **meddalwedd** a chaledwedd cyfrifiadur (gan gynnwys cof a'r defnydd o apiau).

### Tab

Wrth chwilio ac edrych ar dudalennau ar-lein, bydd gan bob un ei 'tab' ei hun. Gallwch gael llawer o dabiau gwahanol ar agor ar unwaith.

### Trol

Rhywun sy'n postio sylwadau sarhaus neu anghwrtais ar-lein.

### Twyll

Fel twyll all-lein, hyn yw pan fydd rhywun yn dynwared rhywun arall i gael gwybodaeth bersonol (er enghraifft manylion banc) yn anghyfreithlon.

### URL

Lleolydd Adnoddau Unffurf (Uniform Resource Locator). Enw arall ar gyfeiriad gwefan (e.e. www.google.co.uk).

### Ymosodiad maleisus

Ymgais gan **sgamiwr** i osod firws ar eich cyfrifiadur.

### Ymosodiad seiber

Ymosodiad digidol sy'n targedu dyfeisiau digidol.

### Wi-fi

Eich cycylltu'n ddi-wifr i'r **rhyngrwyd** drwy gysylltiad band eang.

## Dolenni i ddysgu pellach

Rydyn ni'n gwerthfawrogi bod y geiriau hyn yn gallu swnio fel iaith hollol wahanol pan fyddwch yn eu clywed am y tro cyntaf. Ewch drwy'r ymadroddion hyn gyda'ch cynorthwyydd digidol a bydd yn teimlo'n llai trwm o lawer, a chofiwch bod modd i chi gyfeirio'n ôl unrhyw bryd.

I gael rhagor o wybodaeth am y jargon yma ac ymadroddion defnyddiol eraill, cliciwch y ddolen hon neu deipio'r cyfeiriad yn eich porwr gwe https://www.digitalunite.com/computer-basics/getting-started/computer-terms-and-internet-jargon